



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	22 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("y Rheoliadau")

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio
Bydd y Rheoliadau'n diwygio:

- (a) Deddf Meinweoedd Dynol 2004
- (b) Rheoliadau Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Cymeradwyaeth Foesegol, Eithriadau rhag Trwyddedu a Chyflenwi Gwybodaeth am Drawsblaniadau) 2006; a
- (c) Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu 2012.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r OS yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Weinidogion Cymru mewn perthynas â rhai gweithdrefnau yn ymwneud â rhoi meinweoedd. Nid oes effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad yn golygu swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gallai hyn, felly, fod yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau hyn yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth rhoi organau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu 2012 i fewnosod adran newydd mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo a chyfleu gwybodaeth am organau. Mae'r rheoliad newydd yn datgan y caiff yr awdurdod priodol ddiwygio'r setiau data yn y meysydd hyn trwy reoliadau. Diffinnir yr

awdurdod priodol mewn perthynas â Chymru fel Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chydysniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111174807/contents>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi'i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau i Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.